# Crynodeb o Gofnodion y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth
# Cyfarfod 15 – 15 Ebrill 2019

Pafiliwn Llywodraeth Cymru, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt

## Yn bresennol

Lionel Walford – Cadeirydd
Will Prichard – NFU Cymru
Neil Beveridge – UNITE
Steve Hughson – Aelod Annibynnol
Darren Williams – FUW
Ivan Monckton – UNITE

Helen Snow – Geldards

Llywodraeth Cymru:
Ryan Davies – Rheolwr y Panel
Karla Price – Ysgrifenyddiaeth
Dan Ricketts – Ysgrifenyddiaeth
Spencer Conlon

**Eitem 1 – Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys Neil Beveridge a oedd bellach wedi ysgwyddo'r rôl yn Undeb Unite a arferai gael ei chyflawni gan Paddy McNaught.

**Eitem 2 – Y Newyddion Diweddaraf gan y Cadeirydd**

Byddai ail ddogfen ymgynghori ar “Brexit a'n Tir” yn cael ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2019. Dywedodd y Cadeirydd ei fod am alw cyfarfod o'r is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant ym mis Medi er mwyn cytuno ar ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad.

**Eitem 3 – Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod 14 (17 Ionawr 2019)**

Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cafodd y Camau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf eu trafod hefyd:

- Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am hysbysebu a rhoi cyhoeddusrwydd i ymgyngoriadau’n ymwneud â'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol yn y dyfodol. Roedd prisiau'n amrywio'n fawr, gan ddibynnu ar y math o hysbyseb a ddewisir. Awgrymwyd y gellid ystyried hysbysebu yng nghylchgrawn “Agri Trader”. Byddai hynny'n cael ei ystyried a byddai penderfyniad yn cael ei wneud wedyn yn y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin ar sut y byddai ymgyngoriadau’n cael eu hysbysebu yn y dyfodol.

- Roedd bwriad i gynnwys darn am waith y Panel yng Nghyfnodolyn Blynyddol Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru. Roedd y cyfnodolyn hwnnw wrthi'n cael ei olygu.
- Roedd y Panel yn hapus â'r fersiwn ddiweddaraf o'r papur ar Statws Cyflogaeth a diolchodd i Helen am ei gaith caled arno. Byddai'r papur hwnnw'n cael ei anfon at Wasanaethau Cyfieithu Llywodraeth Cymru ac yn cael ei gyhoeddi ar y wefan cyn gynted ag y byddai modd.
- Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr wybodaeth ar Lafur a Chyflogaeth a gesglir yn yr Arolwg o Fusnesau Fferm sy'n cael ei gynnal yn Lloegr – mae ynddo adran benodol yn ymwneud â Llafur. Byddai'n cael ei anfon at aelodau'r Panel i ddangos iddynt pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn.

**Eitem 4 – Moderneiddio'r Gorchymyn o 2020 ymlaen**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Panel mai diben moderneiddio'r Gorchymyn oedd sicrhau ei fod yn berthnasol i'r dyddiau hyn a'i fod hefyd yn berthnasol i Gymru yn benodol. Dywedodd hefyd nad oedd yn credu y byddai modd gwneud newidiadau mawr ar gyfer 2020, a hynny oherwydd yr amserlenni. Byddai'n fwy realistig gwneud mân newidiadau yn 2020 ac yna edrych ar newidiadau mawr mewn pryd ar gyfer 2021.

Cafodd cynnig yr NFU / FUW ar “Ailfandio'r Strwythur Graddio” (o Gyfarfod 9) ei roi i'r Panel unwaith eto. Dywedodd Unite y byddai'n ymateb i'r cynnig yn y cyfarfod nesaf.

Awgrymwyd y dylid llunio amserlen er mwyn cadw'r Panel “ar y trywydd iawn” o ran moderneiddio. Cytunwyd y byddai hynny'n cael ei wneud ac y byddai'r amserlen yn cael ei chyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Wrth i'r Panel gael ei sefydlu, paratowyd dogfen gan gynghorwyr cyfreithiol y Panel ar yr hyn y gallai fod angen i'r Panel ei ystyried mewn perthynas â moderneiddio. Byddai'r ddogfen honno'n cael ei chylchredeg eto.

Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth drwy ddweud bod angen i'r panel edrych ar y Gorchymyn cyfan ar yr un pryd. Nid oedd unrhyw reswm pam na allai'r Panel gynnig strwythur graddio newydd ac yna edrych ar bethau eraill tra byddai'r Asesiad Effaith yn cael ei gynnal. Byddai'r Panel yn cyflwyno cynnig yn y cyfarfod nesaf am y strwythur graddio ac ar ba rannau eraill o'r Gorchymyn yr oedd angen edrych arnynt. Dywedodd fod angen i'r ddwy ochr ddod i'r cyfarfod yn barod ar gyfer trafodaeth o sylwedd.

**Eitem 5 – Unrhyw Fater Arall**
Nid oedd unrhyw fusnes arall.

**Eitem 6 – Y Cyfarfod Nesaf**
Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mehefin a byddai'r lleoliad a'r dyddiad yn cael eu cadarnhau cyn gynted ag y byddai modd. Yna daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.